

System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)


Lawrlwytho data – 31 Rhagfyr 2020

Diolch yn fawr i'r holl Bractisiau a fewngofnododd a gwirio eu data cyn lawrlwytho'r data ar 31 Rhagfyr.

Yn gyffredinol, yn y Chwarter diwethaf (Ch4) methodd 36 practis meddyg teulu ar draws pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd yng Nghymru i fewngofnodi i'r WNWRS yn ystod y Chwarter. Mae'r broses fewngofnodi i'r WNWRS a gwirio'ch data yn ofyniad i gadarnhau dilysrwydd y data a gedwir yn y system. Er ei bod yn siomedig gweld y data dilys ar gyfer practisiau yn lleihau, efallai nad yw hyn yn ganlyniad annisgwyl oherwydd Pandemig y Coronafeirws, pwysau cynyddol y gaeaf ac amseru'r gwyliau tymhorol.

Mae ymgysylltu a chywirdeb mewnbynnu data yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eich holl staff yn dod o dan y Cynllun GMPI ac fel bod yr Offeryn Adrodd yn darparu'r data mwyaf cywir posibl.

Os yw'ch practis yn cael anhawster cael mynediad i'r WNWRS neu os oes ganddo amgylchiadau esgusodol oherwydd Covid-19, rhwch wybod i ni cyn gynted â phosibl drwy anfon e-bost at nwssp.primarycarewnwrs@wales.nhs.uk



Canolbwyntio ar: Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)

Mae'r Canllawiau ar gyfer GMPI mewn perthynas â gweithgarwch locwm wedi newid a chyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ar 8 Rhagfyr 2020.

O 1 Chwefror 2021, bydd angen i feddygon teulu locwm gofnodi'r holl sifftiau a weithiwyd ar Locum Hub Wales yn ogystal â chael eu cynnwys ar Y Gofrestr Meddygon Locwm i Gymru Gyfan. Mae hyn yn golygu nad oes angen i Reolwyr Practisiau lenwi adran 'Meddyg Locwm Anaml' yr WNWRS mwyach, gan y bydd y data hyn yn cael eu dal gan Locum Hub Wales a'u bwydo i ochr adrodd yr WNWRS. Mae hyn hefyd yn amddiffyn eich practis os codir hawliad, gan y bydd modd adnabod y gweithlu locwm ledled Cymru a gellir ymchwilio i ymholiadau GMPI yn gyflym, fel yn achos y staff parhaol.

Cofrestrwch ar Locum Hub Wales (dolen [yma](#)) i weld sut y gall y wefan helpu eich practis chi.

Gweler y ddolen [yma](#) i gael gweld y Canllawiau newydd ar gyfer GMPI

Gweler y ddolen [yma](#) i weld rhai Cwestiynau Cyffredin am y Canllawiau newydd

Syniadau ac Awgrymiadau

Adroddiadau Staff



Wrth i'r brechlyn Covid gael ei gyflwyno, mae'n bwysicach nag erioed bod â data cyfredol, cywir am y staff, ar flaenau'ch bysedd. Os oes angen i chi greu adroddiad i arddangos data ynghylch staff yn eich practis:

- Cliciwch ar y tab Modiwl Adrodd Data ar yr ochr chwith
- Cliciwch ar Adroddiadau
- Adroddiadau Excel
- Math o Sefydliad = Practis
- Dewiswch sefydliad = Teipiwrch y cod W neu enw'r Practis
- Dewiswch Math o Adroddiad = Adroddiad Staff Practis
- Cliciwch ar Creu Adroddiad

Bydd yr Adroddiad yn cael ei greu mewn llai na munud ac yna gallwch agor adroddiad Excel, ei ddiwygio a'i arbed. Gellir dileu neu ail-olygu data sensitif nad oes eu hangen yn ôl y gofyn.

